

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd) Cardiff Cosmetic Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 31 Gorffennaf 2025

Dyddiad cyhoeddi: 31 Hydref 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	16
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	17
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	18
	Atodiad C - Cynllun gwella	20

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cardiff Cosmetic Clinic ar 31 Gorffennaf 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff yn Cardiff Cosmetic Clinic yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion. Gwelsom fod y staff yn gyfeillgar ac yn gwrtais a'u bod yn trin y cleifion ag urddas a pharch.

Roedd amrywiaeth briodol o wybodaeth yn cael ei darparu i'r cleifion am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir. Gallai'r cleifion drefnu apwyntiad ar-lein, yn uniongyrchol dros y ffôn neu yn y clinig. Roedd y cleifion yn cytuno eu bod yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniadau am eu triniaeth.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig naill ai yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gofal urddasol a pharchus
- Roedd amrywiaeth briodol o wybodaeth i gleifion yn cael ei darparu
- Roedd yn hawdd i gleifion drefnu apwyntiadau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r clinig. Roedd y clinig yn lân, mewn cyflwr da ac yn drefnus, heb unrhyw beryglon amlwg mewn unrhyw ardal. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth wedi'i dogfennu o amserlenni glanhau i ddangos bod yr ystafelloedd a'r cyfarpar laser yn cael eu glanhau'n rheolaidd.

Roedd gweithdrefnau cadarn ar waith er mwyn helpu i sicrhau defnydd diogel a phriodol o'r peiriant laser. Roedd trefniadau effeithiol yn sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn cael ei ddefnyddio yn unol â phrotocolau diogelwch.

Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth eu bod yn cael eu rhagnodi a'u rhoi yn gywir. Fodd bynnag, nid oedd y rheolwr cofrestredig yn cadw cofnod o'r stociau meddyginiaeth a gedwir yn y clinig.

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar waith ac roedd arweinydd diogelu wedi'i benodi. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu diweddaraf.

Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen amserlenni glanhau a rhestrau gwirio
- Roedd angen rhestr gwirio stociau'r meddyginiaethau a gedwir yn y clinig i sicrhau rheolaeth briodol o'r cyflenwad ac atebolrwydd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd prosesau rheoli risg priodol ar waith i gynnal diogelwch y staff a'r cleifion
- Roedd prosesau yn ymwneud â defnyddio'r peiriant laser yn briodol, ac roedd triniaethau yn cael eu darparu'n ddiogel yn unol â'r protocolau perthnasol.
- Roedd y cofnodion meddygol mewn cyflwr da ac wedi'u storio'n ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gleifion. Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl ac i'r clinig.

Arddangosodd y clinig ddull cadarnhaol o wella ansawdd, gydag ymdrechion yn cael eu gwneud i gael adborth gan gleifion ar ôl pob apwyntiad. Roedd y broses hon yn cefnogi datblygiad parhaus y gwasanaeth ac yn helpu i sicrhau bod profiadau'r cleifion yn llywio gwelliannau yn y dyfodol.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw'n dda, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â gofynion rheoliadol. Gwelsom hefyd ddogfennaeth yn cadarnhau bod gwiriadau cyn cyflogi priodol wedi'u cynnal.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheolwr Cofrestredig ymrwymedig ac ymroddedig
- Gwneud ymdrech i gael adborth gan gleifion i gefnogi gwelliant
- Cofnodion staff mewn cyflwr da â'r hyfforddiant diweddaraf.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal yn Cardiff Cosmetic Clinic ar gyfer yr arolygiad ym mis Gorffennaf 2025.

Cafwyd cyfanswm o 14 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 14 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn.

Roedd pob ymatebydd wedi cytuno y gallai eu sylwadau gael eu cyhoeddi'n ddienw yn adroddiad arolygu AGIC.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Lleoliad clinigol rhagorol. Cyngor ac arweiniad arbenigol mewn amrywiaeth o ardaloedd. Mae gofal ac arbenigedd o'r fath yn brin yng Nghaerdydd."

"Triniaeth broffesiynol iawn a sensitifrwydd i'm gorbryder ac anghenion."

"Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol."

Diogelu a gwella iechyd

Urddas a pharch

Roedd ymgynghoriadau a thriniaethau yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd preifat yn y lleoliad. Roedd gan yr ystafelloedd ddrysau solet heb ffenestri, a oedd yn cael eu cloi yn ystod apwyntiadau. Gallai tywel urddas gael ei ddefnyddio pe byddai ei angen er mwyn diogelu preifatrwydd y claf yn ystod triniaethau. Roedd pob un o'r mesurau hyn yn helpu i sicrhau bod preifatrwydd y cleifion yn cael ei gynnal yn ystod eu taith fel claf.

Gellid caniatáu i hebryngwyr ddod i'r ystafell drin, pe gofynnwyd am hynny. Roedd pâr ychwanegol o sbectolau amddiffynnol ar gael er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Roedd manylion am hyn i'w cael mewn polisi Hebryngwr.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd, bod eu cwestiynau'n cael eu hateb a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd ffyrdd iach o fyw yn cael eu hyrwyddo i'r cleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys trafodaethau am groen iach a diogelwch rhag golau uwchfioled cyn ac ar ôl triniaeth. Roedd y lleoliad yn rhannu adeilad gyda Phractis Cyffredinol ac felly roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd ar gael, gan gynnwys bwyta'n iach a rhoi'r gorau i ysmygu.

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf yn ystod ein harolygiad ac roedd pob un o'r cofnodion hyn yn cynnwys tystiolaeth o ffurflen ymgynghori wedi'i llofnodi a oedd wedi'i chwblhau cyn cynnal unrhyw driniaeth. Roedd cydsyniad ar sail gwybodaeth hefyd wedi cael ei nodi ar gyfer pob triniaeth yn y cofnodion a welsom. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn rhoi cydsyniad wedi'i llofnodi cyn cael pob triniaeth ac roedd y mwyafrif yn cytuno bod y costau yn glir. Roedd costau triniaethau wedi'u cynnwys ar wefan y practis ac yn cael eu darparu i gleifion cyn i'r claf gael cwrs o driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod gwybodaeth addas yn cael ei rhoi i gleifion ar bob cam o'u triniaeth. Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol. Roedd y rhan fwyaf o wybodaeth a oedd ar gael i gleifion yn uniaith Saesneg. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw glaf sy'n dymuno sgwrsio mewn iaith arall yn dod â pherthynas neu gyfieithydd gydag ef neu'n defnyddio adnoddau cyfieithu ar-lein.

Roedd pawb ond un person a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wedi cael gweithdrefn neu driniaeth, a dywedodd pob un eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a'r risgiau a'r manteision. Cafodd y cleifion wybodaeth am eu hopsiynau triniaeth mewn ymgynghoriad.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y lleoliad ar gael i'r cleifion ar gais.

Yn gyffredinol, roedd cleifion yn trefnu apwyntiadau ar-lein drwy wefan y practis neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, gallai'r cleifion hynny nad oedd ganddynt fynediad digidol drefnu apwyntiadau neu gael ymgynghoriad dros y ffôn.

Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf yn ystod yr arolygiad a gwnaethom nodi bod trefniadau cynllunio a darparu gofal clir ar waith. Roedd y cofnodion yn dangos bod hanes meddygol yn cael ei wirio cyn pob triniaeth a bod y staff yn cynnal prawf croen ar ddechrau pob cwrs o driniaeth, lle y bo'n gymwys. Dywedodd pob

un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth. Dywedodd yr holl gleifion a gafodd driniaeth lle'r oedd angen prawf croen arnynt, eu bod wedi cael prawf croen. Cadarnhaodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir a chanllawiau ar yr hyn y dylent ei wneud mewn argyfwng.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth priodol ar waith, ochr yn ochr â ffyrdd addas o amddiffyn y staff a'r cleifion rhag gwahaniaethu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethom nodi enghreifftiau boddhaol o'r ffordd roeddent yn trin cleifion yn gyfartal ac yn cynnal eu hawliau. Roedd hawliau cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy eu galluogi i ddewis y rhagenwau a'r enwau a ffafrir ganddynt ar eu cofnodion.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i ofyn am adborth ac ymateb iddo. Cysylltwyd â'r cleifion yn awtomatig ar ôl eu triniaeth i ofyn am adborth. Casglwyd a chofnodwyd adborth ysgrifenedig ac ar lafar. Esboniodd y staff pan fydd y gwasanaeth yn ystyried cyflwyno triniaeth newydd, byddai'n holi barn y cleifion er mwyn llywio'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd pob darn o adborth gan gleifion yn cael ei adolygu gan y staff yn syth, ac roedd trosolwg cyffredinol yn cael ei gynnal bob blwyddyn er mwyn nodi tueddiadau neu themâu allweddol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y clinig wedi'i leoli ar ddau lawr gyda'r laser yn cael ei ddefnyddio ar y llawr cyntaf ac ystafell ar y llawr gwaelod yn cael ei defnyddio ar gyfer triniaethau esthetig. Rhennir yr adeilad â phractis meddygol. Roedd mynediad drwy lifft i'r llawr cyntaf ar gael i gleifion â phroblemau symudedd.

Roedd mynediad i'r adeilad ar gael drwy fynedfa flaen a rannwyd â'r practis meddygol, neu drwy fynedfa gefn i gleifion oedd yn defnyddio'r maes parcio sydd wedi'i leoli y tu ôl i'r adeilad. Roedd nifer cyfyngedig o lefydd parcio ar y stryd ar gael ger y fynedfa flaen; fodd bynnag, o ganlyniad i'r galw uchel, roedd hi'n aml yn anodd dod o hyd i le. Roedd y staff yn rhoi gwybod i'r cleifion am hyn yn rheolaidd wrth drefnu apwyntiadau.

Dywedodd pob un ond un o'r ymatebwyr eu bod yn gweld yr adeilad yn hygyrch, gyda'r ymatebydd arall yn nodi ei fod yn ansicr.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r clinig. Roedd yr adeilad mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol, i bob golwg. Gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Gwelsom fod yr ystafelloedd a oedd yn cael eu defnyddio i storio'r peiriannau laser yn cael eu cloi gan yr ymarferwyr pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith. Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau dianc, a gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân wedi cael eu cynnal. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod ac roedd arwyddion priodol ar eu cyfer, ac roedd tystiolaeth eu bod yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Roedd arwyddion 'dim smygu' wedi'u harddangos yn glir.

Gwelsom dystiolaeth o Brofion Offer Cludadwy cyfredol, archwiliad bob pum mlynedd o osodiadau trydanol a gwiriadau diogelwch nwy blyneddol. Roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy wedi'i arddangos yn glir i'r staff ei weld, a gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'r hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng. Roedd pecyn cymorth cyntaf y lleoliad yn addas at y diben ac roedd yr holl eitemau ynddo yn gyfredol. Gwelsom fod y gweithredwr laser wedi cwblhau cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau rheoli heintiau priodol ac arweinydd rheoli heintiau dynodedig. Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo bod y lleoliad yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob ystafell drin ac yn y toiled i gleifion. Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio.

Roedd prosesau cadarn ar waith i lanhau a dihalogi'r ardaloedd trin a'r cyfarpar yn effeithiol. Gwelsom fod menig yn cael eu gwisgo yn ystod triniaethau ac roedd y staff yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl triniaethau fel mater o drefn. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin yn gywir a'i waredu drwy gontract trin gwastraff. Dywedwyd wrthym fod yr ystafelloedd yn cael eu glanhau cyn ac ar ôl cael eu defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd y clinig yn cadw cofnod o hyn.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw gofnod o amserlenni glanhau fel tystiolaeth o lanhau priodol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y clinig yn defnyddio dwy feddyginiaeth bresgripsiwn a oedd yn cael eu harchebu o fferyllfa ar-lein. Roedd y rhain yn cael eu storio a'u rhagnodi yn unol â chanllawiau perthnasol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod wedi'i ddogfennu o'r stociau meddyginiaeth a gedwir ar y safle.

Dylai'r rheolwr cofrestredig gadw rhestr gwirio stociau i sicrhau olrhain yn gywir bob meddyginiaeth a gedwir yn y clinig ac atebolrwydd amdanynt.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gan y gwasanaeth bolisi diogelu priodol a chyfredol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu lleol. Roedd y polisi yn nodi'n glir y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder am ddiogelu. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Lefel 3 ar ddiogelu oedolion. Nid oedd unrhyw driniaethau'n cael eu rhoi i unigolion dan 18 oed.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau yn y lleoliad yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Roedd contract addas ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau ardystiedig. Gwelsom gofnodion o adolygiadau blynyddol o'r lleoliad gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ac roedd adroddiad cynhwysfawr yn cael ei lunio, a oedd yn cynnwys asesiad risg. Gwelsom mai'r tro diwethaf y gwnaeth y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ymweld â'r lleoliad oedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth edrych ar sampl o'r ddogfennaeth ar gyfer y peiriant laser, gwelsom fod protocolau triniaeth unigol ar waith ar gyfer defnyddio'r laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu creu a'u cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol fel rhan o gontract y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.

Roedd y rheolau lleol ar gyfer y lleoliad yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn ymwneud â phob peiriant. Roedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi i gytuno i'r rheolau lleol.

Roedd yr ystafell ddynodedig ar gyfer triniaethau laser yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio, ac roedd yr allweddi ar gyfer pob dyfais yn cael eu storio'n ddiogel gan weithredwr laser y lleoliad. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y peiriant laser, ynghyd â gwiriadau calibradu cyn pob triniaeth. Roedd y cofnodion gwasanaethu ar gyfer y peiriant laser yn foddhaol. Roedd sbectolau amddiffynnol ar gael yn hawdd, roeddent mewn cyflwr da yn ôl pob golwg ac yn bodloni'r rheolau lleol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod triniaethau yn cael eu rhoi yn ddiogel ac yn effeithiol yn y lleoliad. Roedd y gweithredwr laser wedi cael hyfforddiant cyfredol, gan gynnwys hyfforddiant craidd gwybodaeth.

Roedd un ystafell yn cael ei defnyddio ar gyfer triniaethau laser ac roedd un ystafell yn cael ei defnyddio ar gyfer triniaethau esthetig. Gellid cloi'r ddwy ystafell drin ac roedd arwyddion priodol ar y drws i ddangos bod triniaethau laser yn cael eu cynnal yn yr ystafell. Roedd yr arwyddion hefyd yn nodi na ddylid mynd i mewn i'r ystafell pan fyddai triniaethau yn cael eu rhoi.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion fod pob claf yn ein sampl wedi cael prawf croen a bod cydnawsedd ei groen wedi cael ei brofi cyn iddo gael ei gwrs o driniaethau.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd yn y lleoliad er mwyn llywio gwelliant parhaus.

Rheoli cofnodion

Gwelsom dystiolaeth o brosesau cadw cofnodion effeithiol yn y sampl o bum cofnod a welsom. Roedd yr holl gofnodion wedi'u cwblhau, yn fanwl ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd y clinig yn defnyddio systemau papur a digidol, gyda chofnodion digidol yn cael eu cadw'n ddiogel gan ddefnyddio system o'r enw Forrest, yn unol â rheoliadau diogelu data. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod cofnodion yn cael eu gwaredu'n ddiogel, pan fo'n briodol. Fodd bynnag, cadwyd y gofrestr triniaethau ar ffurf dyddiadur. Gwnaethom drafod â'r gweithredwr laser y manteision posibl o feithrin dull mwy syml a strwythuredig o olrhain triniaethau, i wella hygyrchedd a chysondeb.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith yn y lleoliad hwn yn addas. Rheolwr y lleoliad oedd y pwynt cyswllt ar gyfer pob mater yn ymwneud â staffio a gwelsom fod yr unigolyn yn hyderus yn ei rôl. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cael eu defnyddio i drafod ffyrdd newydd o weithio neu gyflwyno gweithdrefnau newydd.

Gwnaethom nodi bod tystysgrifau AGIC ar gyfer y lleoliad yn cael eu harddangos ar y wal yn y dderbynfa ac roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr yn cael ei harddangos hefyd.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd rheolwr y lleoliad yn goruchwyllo cwynion gan gleifion. Roedd y weithdrefn gwyno y gwnaethom edrych arni yn briodol, yn gyfredol ac yn cyfeirio at AGIC fel ffordd o uwchgyfeirio pryderon. Nid oedd unrhyw gwynion i ni eu hadolygu yn ystod yr arolygiad, ond rhoddodd y broses gwyno a oedd ar waith sicrwydd i ni. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw gwynion yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff a byddai unrhyw gwynion ar lafar yn cael eu nodi yn y llyfr cwynion.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Ar adeg yr arolygiad, roedd dau aelod o staff yn gweithio yn y clinig gan gynnwys y Rheolwr Cofrestredig.

Gwelsom bolisiâu a gweithdrefnau a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio, a oedd yn cynnwys cynnal gwiriadau addasrwydd i weithio addas ar ddarpar gyflogeion. Roedd y gwiriadau hyn yn cynnwys prawf adnabod, yr hawl i weithio, cymwysterau a brechiadau, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom edrych ar gofnodion staff a gwelsom fod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf sy'n berthnasol i'w rolau. Roedd gan yr holl staff gofnodion cyfredol yn ymwneud â'u gwiriadau cyn cyflogi a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Cardiff Cosmetic Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 31 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.					
2.					
3.					
4.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Cardiff Cosmetic Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 31 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Yn ystod ein harolygiad ni welsom dystiolaeth o gofnodion nag amserlenni glanhau.	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gadw gofnod o amserlenni glanhau fel dystiolaeth o lanhau priodol.	Atal a rheoli heintiau	Cofrestr wythnosol	Collette England	Yn dechrau 1.11.2025
2. Yn ystod ein harolygiad gwelsom nad oedd cofnod wedi'i ddogfennu o'r stociau meddyginiaeth a gedwir yn y safle.	Dylai'r rheolwr cofrestredig gadw rhestr gwirio stociau i sicrhau olrhain yn gywir bob meddyginiaeth a gedwir yn y clinig ac atebolrwydd amdanynt.	Rheoli Meddyginiaethau	Dyddiadur â rhestr gwirio stociau	Dr Raj Aggarwal	Yn dechrau 22/10/2025
3.					
4.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad: